

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Bethan Davies
Dyddiad: Dydd Gwener, 2 Gorffennaf 2021	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddCyllid@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

Rhag-gyfarfod preifat – Anffurfiol (09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Papurau i'w nodi

(09.30)

2.1 PTN 1 – Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd: Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 – diweddariad ar 31 Mawrth 2021 – 26 Mai 2021

(Tudalennau 1 – 7)

2.2 PTN 2 – Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid

(Tudalennau 8 – 10)

3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021–22: Sesiwn dystiolaeth

(09.30–10.30)

(Tudalennau 11 – 143)

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru



Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru

Papurau ategol:

FIN(6)-01-21 P1 – Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22

FIN(6)-01-21 P2 – Dyraniadau prif grŵp gwariant

FIN(6)-01-21 P3 – Nodyn Esboniado

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, hyd nes y clywir yn wahanol.**

(10.30)

- 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth**

(10.30-10.50)

- 6 Gweithdrefnau a ffyrdd o weithio y Pwyllgor Cyllid**

(10.50-11.10)

(Tudalennau 144 – 158)

Papurau ategol:

FIN(6)-01-21 P4 – Gweithdrefnau a ffyrdd o weithio y Pwyllgor Cyllid

FIN(6)-01-21 P5 – Hyfforddiant a datblygiad

Clerc y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Mai 2021

Annwyl Glerc

Goblygiadau ariannol y pandemig COVID-19 – y wybodaeth ddiweddaraf, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. Gwnaeth Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd yr argymhelliad a ganlyn yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2021-22:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19, am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad terfynol am y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Yn flaenorol, gwnaethom anfon dau lythyr at Bwyllgor Cyllid y Bumed Senedd, dyddiedig 7 Gorffennaf 2020 a 4 Tachwedd 2020, a hynny mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor, dyddiedig 4 Mehefin 2020, yn ogystal â'i drafodaethau ynghylch yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021, gan fanylu ar yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y sefyllfa ariannol yn 2020-21, gan gynnwys manylion unrhyw arbedion a chostau ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg.

Rwyf wedi darparu'r wybodaeth hon yn yr atodiad isod.

Yn gywir,





Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Contact@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Atodiad 1

Effaith ar y Gronfa Brosiectau

Roedd Cyllideb 2020-21 yn dangos bod £1.515 miliwn o wariant i'w ariannu o Gronfa Brosiectau'r Comisiwn. Cafodd COVID-19 effaith ar y Gronfa Brosiectau, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn:

Tabl 1 – Effaith COVID-19 ar Gyllideb y Gronfa Brosiectau

	Cyllideb 2020-21	Gwir sefyllfa 2020-21
Cronfa Brosiectau 2020-21	Swm £'000	Swm £'000
Meddalwedd Legislative Workbench*	£600	£489
Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) – Newid Enw*	£45	£45
Archifo*	£65	-
System y Cyfarfod Llawn*	£50	£11
Gwefan*	£80	£80
Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth	£250	-
Ffenestri newydd – adolygiad dichonoldeb*	£50	£45
Drysau tân newydd*	£80	£80
Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – y Senedd	£225	£233
Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – Tŷ Hywel	£70	£253
Gosod Drws Tân		£92
Gwaith Awyru yn y Pierhead		£30
Gwariant ar yr ystâd sy'n gysylltiedig â COVID-19		£142
Gwariant ar TGCh sy'n gysylltiedig â COVID-19		£191
Cyfanswm	£1,515	£1,691

* ni wnaeth COVID-19 effeithio ar yr eitemau yng nghyllideb wreiddiol y prosiect

Cynyddodd y galw am gyllid o'r gronfa brosiectau o £1.515 miliwn i £1.691 miliwn, sef cynnydd o £176k. Cafodd hyn ei ariannu drwy'r arbedion sy'n gysylltiedig â COVID-19, fel y nodir yn Nhabl 3.

I grynhoi, y prif feysydd prosiect yr effeithiodd COVID-19 arnynt oedd:

- Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth – gostyngiad o £250k
- Diogelwch ffisegol (prosiect oedi) – cynnydd o £191k, gyda gwariant yn cael ei ddwyn ymlaen o 2021-22
- Gweithgaredd a ohiriwyd yn 2019-20 (y flwyddyn flaenorol) (gosod drysau tân/awyru) – cynnydd o £122k yn 2021-22
- Gwariant TGCh ychwanegol yn gysylltiedig â COVID-19 – cynnydd o £191k (gan gynnwys datrysiadau i weithredu'r Cyfarfod Llawn hybrid, mesurau seiberddiogelwch ychwanegol,



gorsafoedd docio ychwanegol ar gyfer gweithio gartref a thechnoleg ar gyfer ystafelloedd smart/fideogynadledda).

- Gwariant ychwanegol ar Reoli Ystadau a Chyfleusterau yn gysylltiedig â COVID-19 – cynnydd o £142k (addasiadau ar gyfer gweithio gartref ac ystafelloedd smart/fideogynadledda).

Yn sgil nodi tanwariant yng nghyswllt y gronfa brosiectau yn gynnar yn 2020-21, a hynny mewn perthynas â gweithgarwch ymgysylltu, bu'r Comisiwn yn trafod yn ofalus a oedd modd blaenoriaethu defnydd arall o'r arian a oedd ar gael.

Cytunodd y Comisiwn y dylid dwyn ymlaen y gwaith o gwblhau'r prosiect i ailfodelu diogelwch ffisegol Tŷ Hywel i flwyddyn ariannol 2020-21 (y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r gwaith hwnnw yn 2021-22). Byddai hyn yn gwella'n sylweddol ddiogelwch ffisegol Tŷ Hywel o ran gwrthsefyll ymosodiad, a byddai'r sgriniau cysylltiedig yn helpu i leihau lledaeniad y feirws, gan ddiogelu'r rhai sy'n gweithio yn y dderbynfa neu'n pasio drwyddo.

Cytunwyd hefyd ar y prosiectau TGCh a nodwyd, gan eu bod yn ymateb yn uniongyrchol i sefyllfa'r pandemig – gan ddarparu offer ar gyfer yr Aelodau, staff cymorth yr Aelodau, a staff y Comisiwn, a'u galluogi i weithio o bell (a thrwy gyfrwng hybrid), a chan gynyddu gwytnwch a seiberddiogelwch ar adeg pan oedd gweithio rhithwir yn hanfodol i fusnes y Senedd.

Yr effaith ar y ddarpariaeth o wyliau blynyddol ac ar lesiant staff

Fel sydd wedi'i nodi yn ein llythyr blaenorol, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 – Buddion Gweithwyr – yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni am gost unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd a gronnwyd gan staff y Comisiwn ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol. Y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2020 oedd £777k (yn cynrychioli 6.9 diwrnod o wyliau blynyddol a 2 ddiwrnod o wyliau hyblyg a gronnwyd gan bob aelod o staff y Comisiwn).

Cyfrifwyd y ddarpariaeth ar 30 Medi 2020, ac roedd y ffigur bum niwrnod yn uwch na'r arfer ar yr adeg honno o'r flwyddyn. Pe bai'r duedd honno wedi parhau, byddai hynny wedi arwain at sefyllfa lle byddai darpariaeth ychwanegol gwerth dros £1 miliwn wedi bod yn ofynnol ar 31 Mawrth 2021. Gwnaeth y Comisiwn ymdrech gadarn i annog staff i ddefnyddio'r gwyliau a gronnwyd ganddynt yn ystod mis Rhagfyr 2020. Yn sgil hynny, roedd y ddarpariaeth ofynnol yn llai. Gwnaethpwyd cais am gyllideb atodol o £650k, a chafodd y gyllideb honno ei chymeradwyo.

Mae'r sefyllfa hon yn amlygu'r ffaith bod y pandemig COVID-19 wedi golygu bod rhai aelodau o staff wedi gorfod addasu eu patrymau gwaith yn sylweddol er mwyn ymateb i ofynion y Comisiwn. Yn sgil hynny, mae rhai aelodau o staff wedi methu â chymryd gwyliau, ac mae eraill wedi dweud



nad ydynt am gymryd gwyliau. Mae'r sefyllfa hon yn parhau i gael sylw at ddibenion sicrhau llesiant staff.

Yr effaith ar gyllidebau meysydd gwasanaeth – gwariant cyffredinol

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar wariant cyffredinol y Comisiwn o ddydd i ddydd wedi amrywio yn ystod 2020-21, ac mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn arwydd cynnar o ble'r oedd angen gwariant ychwanegol a ble y daeth arbedion i'r amlwg.

Tabl 2 – Gwariant ychwanegol y Comisiwn

Gwariant	Gwir sefyllfa 2020-21 £
Ystadau a Chyfleusterau – Sgriniau, Arwyddion, Offer diheintio, agorwyr drysau ac ati.	39,000
TGCh – Trwyddedau Zoom, gliniaduron, sgriniau, allweddellau ac ati.	88,000
Diogelwch – Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)	4,000
Desgiau, cadeiriau ac ati ychwanegol yn dilyn asesiadau DSE cartref	19,000
Gostyngiad yn incwm y siop	10,000
Cyfanswm	160,000

Yn ogystal, gwariwyd £16k yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2019-20) ar offer TGCh ychwanegol.



Tabl 3 – Costau llai neu arbedion yn erbyn Cyllidebau Gwasanaethau

Arbedion yn erbyn y Gyllideb	2020-21 £
Costau cyfleustodau llai	130,000
Costau Heddlu a Diogelwch	175,000
Costau teithio staff	150,000
Gwariant y Comisiwn yn gysylltiedig ag Aelodau o'r Senedd*	168,000
Costau cyfieithu allanol	47,000
Addysg a Digwyddiadau	78,000
Argraffu a phostio	117,000
Lletygarwch	31,000
Hyfforddiant a Recriwtio	89,000
Cyfanswm	985,000

*yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer Aelodau, deunydd ysgrifennu a chostau ymgysylltu rhyngwladol. Mae'r holl eitemau hyn yn cael eu hariannu o gyllideb weithredol y Comisiwn.

Mae tablau 2 a 3 yn nodi arbediad net cyffredinol o £825k (£985k namyn £160k).

O'r arbediad net hwn, roedd swm o £408k heb ei ddefnyddio ar ddiwedd 2020 (mae'r ffigurau'n destun archwiliad). Cafodd y gweddill, sef swm o £417k, ei ddefnyddio i ariannu'r galw cynyddol am gyllid o'r gronfa brosiectau (Tabl 1), mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw a chynaliadwyedd sy'n cael blaenoriaeth ar yr ystâd. Roedd hyn yn cynnwys gwneud gwaith cynnal a chadw ar y lifftiau, ailosod larwm tân a goleuadau LED, cyflwyno system recriwtio newydd, a chyflwyno system newydd ar gyfer rheoli mynediad i swyddfeydd yr Aelodau.



Effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Dâl a Threuliau Aelodau.

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar Gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau wedi bod yn amrywiol, ac mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn arwydd o'r effaith honno.

Mae tablau i) a ii) yn dangos gwariant gwirioneddol yn erbyn gwariant a gyllidebwyd yn 2020-21 a 2019-20, yn y drefn honno. Mae tabl iii) yn dangos gwariant gwirioneddol yn 2019-20 yn erbyn gwariant gwirioneddol yn ystod y pandemig yn 2020-21.

i) Gwariant – Yn ystod COVID-19 £ '000	Gwir sefyllfa 2020-21	Cyllideb 2020-21	Amrywiad
Costau cyflogau Aelodau.	6,236	6,544	308
Costau cyflogau staff cymorth yr Aelodau.	8,073	7,797	(276)
Costau Teithio	47	310	263
Costau Swyddfa a Chostau Eraill	1,238	1,521	283
Cyfanswm	15,595	16,172	577

i) Gwariant – Cyn COVID-19 £ '000	Gwir sefyllfa 2019-20	Cyllideb 2019-20	Amrywiad
Costau cyflogau Aelodau.	6,246	6,320	74
Costau cyflogau staff cymorth yr Aelodau.	7,313	7,568	255
Costau Teithio	280	308	28
Costau Swyddfa a Chostau Eraill	1,118	1,501	383
Cyfanswm	14,956	15,697	741

iii) Gwariant – 2019-20 v 2020-21 £ '000	Gwir sefyllfa 2019-20	Gwir sefyllfa 2020-21	Amrywiad
Costau cyflogau Aelodau.	6,246	6,236	(10)
Costau cyflogau staff cymorth yr Aelodau.	7,313	8,073	761
Costau Teithio	280	47	(233)
Costau Swyddfa a Chostau Eraill	1,118	1,238	121
Cyfanswm	14,956	15,595	639

Roedd gwariant cyffredinol yn erbyn cyllideb y Penderfyniad yn uwch yn ystod 2020-21 na 2019-20 (£639k – tabl iii), er gwaethaf y ffaith bod cyflogau'r Aelodau wedi cael eu rhewi a'r ffaith bod



gwariant ar deithio wedi gostwng. Roedd hyn o ganlyniad i drosiant is na'r disgwyl ymhlith staff cymorth yr Aelodau, a oedd yn golygu bod nifer is o swyddi gwag na'r disgwyl (£276k – tabl i). Ni chafodd y tanwariant canlyniadol yn erbyn cyllideb 2020-21 (£577k) ei dynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod 2020-21. (Mae'r ffigurau'n destun archwiliad).



Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid

Gorffennaf 2021

Diben

1. Mae'r papur yn nodi cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid.

Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi ei gylch gwaith.

Cefndir

3. Mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi'u nodi yn y **Rheolau Sefydlog**. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd sefydlu pwyllgorau a chanddynt bŵer yn eu cylch gwaith i:

“(i) archwilio gwariant, trefniadau cyllido, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi;

(ii) archwilio deddfwriaeth;

(iii) ymgymryd â swyddogaethau eraill a bennir yn y Rheolau Sefydlog; a

(iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.”

4. Drwy wneud hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig, ynghyd â phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau.

Cylch gwaith y Pwyllgor

5. Cylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021, yw:

- cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 18A, 19 ac 20 y Senedd;



- o dan Reolau Sefydlog 19, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Senedd ynghylch defnyddio adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gynnwys craffu ar gyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru;
- o dan Reolau Sefydlog 18.10 a 18.11, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwyllo gwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- o dan Reol Sefydlog 18A, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwyllo gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- gall y pwyllgor hefyd, fel rhan o'i gyfrifoldebau, ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru, a'r cynnydd wneir yn y cyswllt hwnnw; a
- gall y pwyllgor graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Senedd.

6. Mae gwybodaeth fanylach ynghylch cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Mae rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau ehangach pwyllgorau'r Senedd wedi'u nodi yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Mehefin 2021.

Atodiad 1: Cyfrifoldebau'r Pwyllgor

Mae prif rôl y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys:

- Craffu bob blwyddyn ar y canlynol
 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru (a chyllidebau atodol cysylltiedig);
 - Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd (a chyllidebau atodol cysylltiedig)
 - Amcangyfrif Archwilio Cymru (ac amcangyfrifon atodol cysylltiedig);
 - **Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (ac amcangyfrifon atodol cysylltiedig);
- ystyried goblygiadau ariannol Biliau'r Senedd a chyflwyno adroddiad arnynt yn ystod Cyfnod 1;
- ystyried Biliau'r Senedd a gyflwynir gerbron y Senedd ac y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio ato;
- goruchwilio gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru (a Swyddfa Archwilio Cymru)
- goruchwilio gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynnig y Gyllideb Atodol 2021-22

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Mehefin 2021

Cynnig y Gyllideb Atodol

1. Gofynnir i'r Senedd gytuno ar y canlynol:

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 gan Senedd Cymru ("y Senedd") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Atodol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 22 Mehefin 2021.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o bob rhan o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o bob rhan o'r Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 3(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o bob rhan o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob rhan o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob Rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronuss, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronuss.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2022 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 ym mhob Rhan o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronuss a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2022 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno.

7. O dan Adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall cynnig cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw gorff sy'n gorff dynodedig mewn perthynas â pherson perthnasol. Mae adnoddau'r cyrff sydd wedi'u dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (fel y'i diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn ar gyfer y gyllideb atodol.

Y Comisiwn Etholiadol

8. Mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol, awdurdodir Llywodraeth Cymru-

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1A, hyd at uchafswm o'r symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Atodlen 1A;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, o fewn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 2A, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022, i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y cofnodion cyfatebol yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a bennir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno.

(c) i dynnu arian allan o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1A, hyd at y terfyn gofyniad arian parod net a bennir yn Atodlen 5.

Comisiwn y Senedd

9. Awdurdodir Comisiwn y Senedd -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

10. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Swyddfa Archwilio Cymru

11. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronrus

12. Mae'r categorïau o adnoddau cronrus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf."

Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

Gweinidogion Cymru

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,891,145	68,636
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,631,025	4,337
Y Gymraeg ac Addysg	3,257,869	326,769
Newid Hinsawdd	2,710,461	97,898
Yr Economi	625,086	449,515
Materion Gwledig	356,305	104,734
Cyfiawnder Cymdeithasol	151,746	1,094
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	325,217	6,125
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru (ac eithrio'r Comisiwn Etholiadol)	21,948,854	1,059,107
Y Comisiwn Etholiadol	1,750	0
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru	21,950,604	1,059,107

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Comisiwn y Senedd	62,914	220
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,110	17
Swyddfa Archwilio Cymru	8,148	14,461
Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	76,172	14,698

Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru**Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys amhariadau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG a hosbisau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer CAF/CASS; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	9,891,145

Rhan 2: Cyllid a Llywodraeth Leol

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar lywodraeth leol a chymunedau a rhaglenni cyllid a gwasanaethau, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i gefnogi llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; cefnogi cydweithio, diwygio a gwella. Ariannu Academi Wales, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn. Hefyd yn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p> <p>Gwariant ar ariannu cyrff allanol gan Lywodraeth Cymru; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys benthyca a threthiant datganoledig; (Cymru gyfan); y gronfa Buddsoddi i Arbed; y Gronfa Rhyddhau Tir a gwasanaethau caffael (Cymru gyfan) ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p> <p>Cyllid ar gyfer amrywiaeth o weithgarwch Caffael Masnachol gan gynnwys: pennu'r cyfeiriad polisi strategol ar gyfer Caffael yng Nghymru; datblygu sgiliau gallu a gallu ehangach yn y sector cyhoeddus; diwygio caffael; darparu rhaglen o drefniadau cydweithredol cenedlaethol; cefnogi amrywiaeth o ysgogwyr Llywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth a pholisi ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd anghyllidol.</p>	<p>4,631,025</p>

Rhan 3: Y Gymraeg ac Addysg

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a'r Gymraeg gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant datblygu disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; lles plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; ennyn diddordeb disgyblion; addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog; cefnogi'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg; cymorth cyflawni; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	3,257,869

Rhan 4: Newid Hinsawdd

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Dai, Trafnidiaeth, Seilwaith Digidol, Ynni, Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynllunio gan gynnwys hyrwyddo, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i gefnogi cynllunio a rheoleiddio a thai i Gynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy a Thai Marchnad; cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy'r Gronfa Cefnogi Pobl, Byw'n Annibynnol a Gofal Integredig ac atal digartrefedd. Cyllid i gefnogi cymunedau gan gynnwys Adfywio; systemau trafndiaeth gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; darparu cymorth i wella a datblygu seilwaith digidol; darparu seilwaith sy'n gysylltiedig â TGCh; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiad ar y ffyrdd, y rheilffyrdd, yr awyr a'r môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; darparu a hwyluso seilwaith; darparu polisi a rhaglenni trosfwaol ar ddatblygu cynaliadwy ac amgylchedd rheoli adnoddau naturiol, morol, cynllunio a rheoleiddio; datblygu a gweithredu polisi newid hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, economi gylchol, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, risg llifogydd a risg arfordirol gan gynnwys cynnal a chadw tomenni glo, polisi a deddfwriaeth dŵr a charthffosiaeth; cynllun cymunedau gwaredu tirlenwi; cyflenwi polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchoddedig a mynediad ehangach i fannau gwyrdd a rheoli môr Cymru ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	2,710,461

Rhan 5: Yr Economi

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi, gan gynnwys hybu a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.</p> <p>Gwariant ar sectorau a datblygu busnesau rhanbarthol; entrepreneuriaeth a gwybodaeth fusnes; allforio, masnach a mewnfuddsoddi; arloesi; gwyddoniaeth; gwyddorau bywyd; darparu cymorth i wella a datblygu seilwaith digidol; darparu seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategaeth; Banc Datblygu Cymru; twristiaeth a Digwyddiadau Cymru i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cymru Greadigol ac eraill; cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol; cyfryngau a chyhoeddi drwy Gyngor Llyfrau Cymru; cefnogi'r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill; dysgu seiliedig ar waith; darparu cymorth ar gyfer sgiliau; polisi sgiliau; cyflogaeth a sgiliau; addysg a dewis gyrfaoedd ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.</p>	625,086

Rhan 6: Materion Gwledig

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru Faterion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Datblygu a gweithredu polisiau a rhaglenni cyffredinol ar amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; rheoli ffiniau, datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith amgylchedd a materion gwledig; gwarchod iechyd a lles anifeiliaid a datblygu polisiau addasu genetig; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu, monitro a modelu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	356,305

Rhan 7: Cyfiawnder Cymdeithasol

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Gyfiawnder Cymdeithasol gan gynnwys cefnogi cymunedau, gwella neu gefnogi lles cymdeithasol; diogelwch cymunedol a datblygu rhyngwladol.</p> <p>Cyllid i gefnogi cymunedau gan gynnwys atal trais; cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol; gwasanaethau cynghori; y sector gwirfoddol; diogelwch cymunedol; y Comisiynydd Pobl Hŷn; y Comisiynydd Plant; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; cymorth a diogelwch cymunedol; cynhwysiant digidol ac ariannol; gwasanaethau tân ac achub; glasbrintiau troseddwr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid; tlodi tanwydd; partneriaethau cymdeithasol; rhaglen Cymru yn Affrica; Chwarae Teg; sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr, hyrwyddo datblygiad a chysylltiadau rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	151,746

Rhan 8: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i wario ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu a chydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; a Chysylltiadau Rhyngwladol.</p> <p>Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; rheoli asedau; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG a Digidol; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeoliad cynnar a phensiynau); cost etholiadau a refferenda: gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; ariannu cyrff allanol; digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; ymholiadau ac ymchwiliadau; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; hyrwyddo Cysylltiadau Rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	325,217

Atodlen 1A – Cwmpas ar gyfer gwariant Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol

Cwmpasau ar gyfer gwariant a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Y Comisiwn Etholiadol</p> <p>I'w ddefnyddio gan y Comisiwn Etholiadol ar wariant sy'n codi mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru; gweithgarwch rheoleiddio cysylltiedig gan gynnwys gwneud codau ymarfer; adolygu a chynghori ar weinyddu a chyfraith etholiadau ac annog arferion gorau; darparu canllawiau ar gynnal etholiadau a refferenda ac adrodd arnynt; pennu safonau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n gweinyddu cofrestru etholiadol, etholiadau a refferenda, a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau hynny a gwariant ar etholiadau ac ymgyrchu; cynnal refferenda penodol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol.</p>	1,750

Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronrus gan Weinidogion Cymru**Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae'r adnoddau cronrus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Cyfanswm yr incwm (£000)	68,636

Rhan 2: Cyllid a Llywodraeth Leol

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronrus gan gynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant (gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed) ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau gan gynnwys benthyciadau staff; incwm o werthu asedau datblygu; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a'r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; cefnogi gwariant cyfalaf ar asedau datblygu; talu grantiau i awdurdodau lleol a chefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	4,337

Rhan 3: Yr Gymraeg ac Addysg

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW.</p> <p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys ad-daliadau ac adennill taliadau grant; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o werthiant asedau cyfalaf; adennill benthyciadau a wnaethpwyd ac unrhyw daliadau llog arnynt; adennillion a grantiau ad hoc o ffynonellau eraill.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu rhaglenni, gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; i gefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	326,768

Rhan 4: Newid Hinsawdd

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant gan gynnwys incwm o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol a chynlluniau grant eraill a buddsoddiadau ac incwm o gynlluniau benthyca; cyllid naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; cyfraniadau prosiect gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm buddsoddi; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; derbyniadau astudiaethau trafndiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil ac ardoll ffioedd hwyluso; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran; incwm o adenillion grant gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil sy'n gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; cyllid gan adrannau eraill y llywodraeth ganolog; ac adennill TAW.	Mae gwasanaethau a dibenion yn cynnwys talu grantiau; cynlluniau a gefnogir yn rhannol gan adrannau eraill y llywodraeth; ad-dalu benthyciadau; pob prosiect a ariennir gan Ewrop ac i gefnogi'r holl wariant fel y nodwyd yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	97,898

Rhan 5: Yr Economi

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronnus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; incwm yn ymwneud â gweithgareddau gwyddoniaeth a gwyddor bywyd; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; taliadau mynediad ac incwm gweithredol arall i Cadw; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a chyrrff a noddir; Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; adennill TAW a threthi eraill.	Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	449,515

Rhan 6: Materion Gwledig

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r UE i gefnogi ffermyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o adennill grantiau o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau ac erlyniadau bwyd; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â Materion Gwledig.</p>	<p>Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â thaliadau grant, erlyniadau bwyd, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.</p>
Cyfanswm yr incwm (£000)	104,734

Rhan 7: Cyfiawnder Cymdeithasol

<i>Colofn 1</i> <i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant ac adennill TAW.	Mae gwasanaethau a dibenion yn cynnwys costau rhedeg, gweinyddu cyffredinol a chostau a gwariant ar adnoddau Comisiynwyr a Chwarae Teg; cefnogi gwariant ar gymunedau mwy diogel a thalu grantiau i awdurdodau lleol; a chefnogi'r holl wariant fel y nodir yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	1,094

Rhan 8: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae'r adnoddau cronrus yn cynnwys incwm o weithgarwch gweinyddol megis: gwerthu nwyddau neu wasanaethau; gwerthu tir neu adeiladau; adennill costau; secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; adennill taliadau grant; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill trethi gan gynnwys TAW; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarparwyd; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu: costau cynnal a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; cefnogi cydraddoldeb; atal trais; darparu cyngor; cydnerthedd a threfniadau wrth gefn; Datblygu Rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol; ac unrhyw brosiect sy'n cael arian Ewropeaidd.
Cyfanswm yr incwm (£000)	6,125

Atodlen 2A – Defnydd o adnoddau cronus gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol

<i>Colofn 1</i> <i>Categori adnoddau cronus</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
<p>Adnoddau cronus sy'n codi mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru: cofrestru ac ailgofrestru pleidiau gwleidyddol; darparu canllawiau ar gynnal etholiadau a referenda ac adrodd arnynt; pennu safonau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n gweinyddu cofrestru etholiadol, etholiadau a refferenda, a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau hynny a gwariant ar etholiadau ac ymgyrchu; cynnal refferenda penodol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol; ac unrhyw eitemau eraill nad ydynt yn arian parod.</p>	<p>Cefnogi'r holl wariant fel y'i nodwyd yn y Cwmpas gwariant.</p>
<p>Cyfanswm yr incwm (£000)</p>	<p>0</p>

Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronrus)

Rhan 1 – Comisiwn y Senedd

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
